# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhaglen | 2 |
| 4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 5 |
| 5 - Bwrdd Pensiwn Lleol | 8 |
| 6 - Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol Cymru 'Gweithio Gyda'n Gilydd' | 12 |
| 7 - Rheolaeth Trysorlys 2013 - 2014 | 14 |
| 8 - Presenoldeb yn  Cynhadledd LAPFF | 19 |
| 8 - Atodiad A | 20 |
| 9 - Cynhadledd Copa Buddsoddi LGC | 24 |

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

**PENSIONS COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**2:00pm, DYDD MAWRTH, 21 HYDREF 2014**

**2:00pm, TUESDAY, 21 OCTOBER, 2014**

Lleoliad / Location

**YSTAFELL GWYRFAI,**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES,**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Lowri Haf Evans**

**(01286 679878)**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

**PWYLLGOR PENSIYNAU**
**PENSIONS COMMITTEE**

**AELODAETH / MEMBERSHIP**

**Plaid Cymru (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors
Peredur Jenkins
Dafydd Meurig
W. Tudor Owen

**Annibynnol/Independent (2)**

Y Cynghorwyr/Councillors
Trevor Edwards
John Pughe Roberts

**Rhyddfrydwyr Democrataidd / Liberal Democrats (1)**

Y Cynghorydd/Councillor Stephen Churchman

**Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd/Councillor Peter Read

**Aelodau Cyfetholedig / Co-opted Members**

Y Cynghorydd/Councillor Margaret Lyon, Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy /Conwy County Borough Council Representative

Y Cynghorydd/Councillor Hywel E. Jones, Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council Representative

**Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor/Chairman and Vice-chairman of the Council

# RHAGLEN

1. **CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

   Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. **MATERION BRYS**

   Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

4. **COFNODION**

   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2014 fel rhai cywir

   (copi yma – papur ***gwyn***)

5. **BWRDD PENSIWN LLEOL**

   Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

   (copi yma – papur ***glas***)

6. **CYNLLUNIAU PENSIWN LLYWODRAETH LEOL CYMRU - GWEITHIO GYDA’N GILYDD**

   Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

   (copi yma – papur ***pinc***)

7. **RHEOLAETH TRYSORLYS 2013/14**

   Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

   (copi yma - papur ***melyn***)

8. **PRESENOLDEB YN CYNHADLEDD ‘LOCAL AUTHORITY PENSION FUND FORUM (LAPFF) 3 – 5 RHAGFYR 2014**

   Dethol un aelod o'r pwyllgor i fynychu’r seminar.

   (copi yma – papur ***lelog***)

9. **CYNHADLEDD COPA BUDDSODDI LGC – ‘BUDDSODDI AM DWF’**

   Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid

   (copi yma – papur ***gwyrdd***)

# PWYLLGOR PENSIYNAU, 17.06.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Trevor Edwards, Hywel E Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn), Dafydd Meurig, W Tudor Owen, John P. Roberts a Peter Read

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) Gareth Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Peredur Jenkins, Margaret Lyon (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy),

## 1. ETHOL CADEIRYDD 2014/2015

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Tudor Owen yn gadeirydd y pwyllgor am 2014/15

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD 2014/15

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Stephen Churchman yn is-gadeirydd y pwyllgor am 2014/15

## 3. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Tudor Owen. Nodir yr ymddiheuriadau uchod.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17eg o Fawrth 2014 fel rhai cywir.

## 7. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH SAN STEFFAN (DCLG) AR Y CYFLEON AM GYDWEITHIO, ARBEDION COST AC EFFEITHLONDEB YN Y CPLlL (LGPS)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Buddsoddiad yn ymhelaethu ar gyhoeddiad yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Lleol i ymgynghori ar gyfleoedd, arbedion costau ac effeithlonrwydd ar gyfer y CPLlL yng Nghymru a Lloegr. Cred y Llywodraeth bod posib cyflawni arbedion sylweddol drwy ddiwygio'r CPLlL. Anelwyd yr ymgynghoriad at bob parti sydd â diddordeb yn y CPLlL gan osod 11 Gorffennaf 2014 fel y dyddiad olaf i gyflwyno ymateb.

Amlinellwyd bod y ddogfen ymgynghori yn cynnwys cynigion a bod cwestiynau

penodol yn cael eu gofyn i gasglu barn. Yn dilyn gwaith rhwng yr wyth cronfa bensiwn yng Nghymru nodwyd y byddai ymateb ar y cyd yn cael ei gynnig yn seiliedig ar ganlyniadau'r prosiect cydweithio. Yn ogystal, bydd Cyngor Gwynedd, fel awdurdod gweinyddu yn ymateb hefyd a gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried unrhyw farn neu faterion y dymunent eu cynnwys.

Trafodwyd y cynigion mewn manylder.

Prif sylwadau o'r drafodaeth;

Sylwadau cyffredinol

- Derbyn yr angen i foderneiddio'r drefn
- Cydnabod yr angen i gyflawni arbedion
- Derbyn yr egwyddor o lunio un corf llywodraethu, ond 89 corff yn rhy fawr.
- Mynegwyd pryder na fydd modd dylanwadu - llais lleol yn cael ei golli
- Maint cronfa Cymru yn dderbyniol.

Cyfryngau Buddsoddi

- Faint o gyfryngau buddsoddi fydd eu hangen? Angen mwy o wybodaeth
- Manteisiol cael dewis e.e., buddsoddi cronfeydd lleol
- Angen mwy o hyblygrwydd

Rheolaeth cronfa

- Prif egwyddor yw cael enillion gwell am lai o gost
- Derbyn yr angen am strwythur mwy effeithiol
- A fydd yr arbediad yn lleol neu ganolog?
- Cefnogi opsiwn 'y gofyn i reoli asedau rhestredig yn oddefol ar sail 'cydymffurfiwch neu eglurwch'.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad i'r drafodaeth.

**PENDERFYNWYD**

**Dirprwyo'r hawl i'r swyddogion lunio ymateb drafft i'r ymgynghoriad. Y swyddogion i rannu'r ymateb drafft gyda Chadeirydd y Pwyllgor i gadarnhau bod yr ymateb yn cydymffurfio â sylwadau'r Pwyllgor.**

## 8. POLISI AR LEIHAU BUDDION PENSIWN

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn datgan yr angen i adolygu polisi'r Gronfa, sydd mewn lle ers 1998, ar leihau neu ohirio pensiwn ar ôl ail-gyflogaeth i fod yn gyson a darpariaethau 'ymddeol hyblyg'. Nodwyd bod yr angen wedi codi i newid Polisi Lleihau'r Gronfa yng nghyd-destun y diwygiad ym mholisi'r Llywodraeth a Rheoliadau yn enwedig gan nad yw CPLlL 2014 bellach yn caniatáu lleihad ar bensiwn sydd wedi cronni ar ôl 31.3.2014.

Argymhellwyd i'r' Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo newid y polisi. Yn gyffredinol, bydd aelodau a ail-gyflogir yn derbyn eu buddion heb effaith lleihad ac ond i eithrio ymddeoliadau salwch rhenciau un a dau a'r rhai salwch cyn 2008 h.y. lleihau'r rhannau hynny o'r pensiynau a ganiateir (croniad cyn 2014 yn unig) ar ail gyflogaeth os yw'r cyflog newydd plws y pensiwn yn fwy na'r cyflog cyn eu hymddeoliad salwch.

**PENDERFYNWYD**

**Caniatáu'r hawl i newid y polisi er mwyn i aelodau sydd wedi eu hail gyflogi dderbyn buddion pensiwn llawn ond eithrio ymddeoliadau salwch rhenciau un a dau, ac ymddeoliadau salwch cyn Ebrill 2008 fel eu bod yn parhau yn destun prawf ailgyflogaeth a lleihad pe bae hynny'r deilwng a chyfreithiol**

## 9. CAU ALLAN Y WASG AR CYHOEDD

**Penderfynwyd cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r adroddiad yn ymwneud â materion ariannol y Gronfa Bensiwn ac un o'r cwmnïau y mae'n buddsoddi ynddo. Gallai datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd effeithio ar allu'r cwmni i gystadlu ac nid oes unrhyw fudd cyhoeddus mewn datgelu yn gorbwyso hawl y cwmni i gadw ei faterion ariannol yn gyfrinachol.**

## 10. BUDDSODDIAD EIDDO

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Buddsoddi.

**PENDERFYNWYD**

**Cymeradwyo argymhellion y Rheolwr Buddsoddi**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:00pm

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **21 HYDREF 2014** |
| **TEITL** | **BWRDD PENSIWN LLEOL** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDIADAU** |

## 1. CYFLWYNIAD

Ym mis Gorffennaf 2014 cyhoeddwyd Rheoliadau Drafft ar Lywodraethu'r Cynllun ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan yr Adran ar gyfer Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG). Y dyddiad cau am ymatebion oedd 15 Awst 2014.

**1.2** Oherwydd amseriad yr ymgynghoriad roedd hi’n angenrheidiol i drafod yr ymateb ar ran y Gronfa Bensiwn yng nghyfarfod y Panel Buddsoddi ar 31 Gorffennaf 2014. Yn dilyn y cyfarfod darparwyd ymateb a gafodd ei gytuno gyda’r Cadeirydd a’r Is-gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau cyn ei gyflwyno i DCLG. Gweler Atodiad A ar gyfer copi o’r ymateb. Cyflwynwyd ymateb ar y cyd gyda’r wyth cronfa bensiwn yng Nghymru hefyd.

**1.3** Y prif ofyniad yn y rheoliadau drafft yw sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol.

## 2. Y BWRDD PENSIWN LLEOL

### 2.1 Sefydlu Byrddau Pensiwn Lleol

- Mae’n rhaid i bob awdurdod gweinyddol sefydlu bwrdd pensiwn lleol erbyn 1 Ebrill 2015.
- Rôl y bwrdd yw cynorthwyo’r awdurdod gweinyddol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda’r holl reoliadau perthnasol, deddfwriaeth arall a’r gofynion sydd yn berthnasol i’r cynllun. Bydd y bwrdd hefyd yn cynorthwyo’r awdurdod i sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon ar gyfer y gronfa.
- Gellir uno’r bwrdd gyda’r pwyllgor presennol i un corff pwrpas deublyg. Mae’n ofynnol cael cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer trefniant o’r fath.

### 2.2 Aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol

- Mae bob awdurdod gweinyddol yn penderfynu ar aelodaeth y bwrdd pensiwn lleol.
- Mae’n hanfodol i’r aelodaeth gynnwys nifer cyfartal o gynrychiolwyr cyflogwyr ac aelodau gyda lleiafswm o 4 aelod yn ofynnol.
- Ni ellir cynnwys aelod cynghorydd o awdurdod lleol fel cynrychiolydd cyflogwyr nag aelod, ond nid yw hyn yn atal apwyntio aelodau cynghorwyr, neu unrhyw berson arall, i’r bwrdd pensiwn lleol fel aelodau ychwanegol ar ben y nifer cyfartal hanfodol o gynrychiolwyr cyflogwyr ac aelodau.
- Mae’n ofynnol bod gan aelodau’r Bwrdd Pensiwn Lleol brofiad perthnasol a medr er mwyn cyflawni eu swyddogaethau priodol.

- Mae rhaid bod y nifer o gynrychiolwyr cyflogwyr ac aelodau a apwyntir yn cynrychioli mwyafrif yr aelodau i gyd.

**2.3 Byrddau Pensiwn ar y Cyd**

- Mae'r rheoliadau drafft yn gofyn i bob awdurdod gweinyddol i sefydlu bwrdd pensiwn lleol. Mae'r tuedd bod nifer o awdurdodau gweinyddol yn rhannu neu yn bwriadu rhannu gwasanaethau yn awgrymu y dylai darpariaeth cael ei wneud ar gyfer bwrdd pensiwn unigol i wasanaethu mwy nag un awdurdod.
- Mae Llywodraeth San Steffan (DCLG) yn credu mai un bwrdd pensiwn lleol ar gyfer bob awdurdod gweinyddol yw'r sefyllfa ddiofyn, ond gellir cytuno eithriadau lle rhennir gweinyddiaeth a rheoli.

**2.4 Gwybodaeth a Dealltwriaeth**

- O dan y rheoliadau byddai'n hanfodol i aelodau Bwrdd Pensiwn Lleol meddu a'r profiad a'r gallu i gyflawni eu rolau priodol.
- Argymhellir bod aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn ystyried Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau a gyhoeddir gan CIPFA ond nid oes gofyn rheoleiddiol i'w gwneud.

**3. BWRDD PENSIWN GWYNEDD**

3.1 Nid yw canlyniad yr ymgynghoriad a'r rheoliadau terfynol wedi cael eu cyhoeddi eto. Er hynny, bydd rhaid cyfansoddi Bwrdd Pensiwn erbyn 1af Ebrill 2015. Cynhwyswyd cais i ganiatáu Bwrdd Pensiwn ar y cyd ar gyfer mwy nag un gronfa yn ein hymateb. Mae'n debyg byddai angen gwneud cais arbennig ar gyfer yr opsiwn hwn. Mae'n annhebygol y byddai hyn yn ymarferol erbyn Ebrill 2015.

3.2 Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol swyddogion er mwyn trafod y gofynion cyfansoddiadol a gweithredol o Fwrdd Pensiwn. Pan fydd canlyniadau'r ymgynghoriad a'r rheoliadau terfynol yn cael eu cyhoeddi bydd gwaith pellach er mwyn sefydlu Bwrdd Pensiwn.

**4. CASGLIAD**

Gofynnir i'r aelodau nodi cynnwys yr adroddiad. Darperir diweddariad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Pensiynau.

**ATODIAD A**

**The Local Government Pension Scheme (Amendment) Regulations 2014**
**Rheoliadau Drafft ar Lywodraethu'r Cynllun**
**Ymgynghoriad**

Mae'r ymateb hon yn cael ei gyflwyno gan Gyngor Gwynedd, fel awdurdod gweinyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Llywodraethir Cronfa Bensiwn Gwynedd gan y Pwyllgor Pensiynau a sefydlwyd o dan strwythur pwyllgorau a Chyfansoddiad y Cyngor. Mae'r pwyllgor yn cynnwys saith aelod etholedig Cyngor Gwynedd, un aelod etholedig Cyngor Sir Ynys Môn ac un aelod etholedig Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy. Y tri cyflogwr mwyaf yn y gronfa yw'r rheiny. Mae aelodau'r Pwyllgor yn cydymffurfio gyda Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau CIPFA.

Gan fod y Pwyllgor presennol yn gweithredu o fewn fframwaith llywodraethu cadarn mae'r aelodau yn pryderu y bydd haen ychwanegol yn cael ei gyflwyno i arolygu ac felly yn gofyn am adnoddau ychwanegol mewn cyfnod ble mae effeithlonrwydd ac arbedion yn bwysig ac mae cost gweinyddiaeth cronfeydd pensiwn llywodraeth leol yn cael eu craffu.

Ni fyddai'r opsiwn arfaethedig o gyfuno'r Pwyllgor presennol a'r Bwrdd newydd fel un corff yn gweithio o dan y trefniadau llywodraethu presennol yng Ngwynedd, gan nad yw'n bosibl cael pwyllgor gyda mwyafrif o'i aelodau tu allan i'r cynrychiolwyr etholedig. Mae'r fersiwn amgen o Reol 106(5) (Opsiwn 2) sydd yn caniatáu disgresiwn i sefydlu trefniadau perthnasol i fwrdd pensiwn lleol yn fwy addas.

Mae aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn ystyried bod ganddynt rôl fel cynrychiolwyr cyflogwyr ac aelodau ac mae gwaharddiad ar apwyntio aelodau etholedig fel cynrychiolwyr o'r fath ar y Bwrdd newydd yn achosi pryder. Cydnabyddir na fyddai aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn gallu cyflawni'r rôl yna ond byddai aelodau etholedig eraill yn addas mewn ffordd tebyg i weithrediad y Pwyllgor Archwilio o fewn strwythur pwyllgorau'r Cyngor.

Rydym yn pryderu y gallai bod yn anodd cael cynrychiolwyr annibynnol o safon am gost resymol, yn enwedig os yw aelodau etholedig yn cael eu gwahardd.

Tra rydym yn nodi sefyllfa ddiofyn y rheoliadau drafft yw un bwrdd lleol ar gyfer bob awdurdod gweinyddol, nid ydym yn credu y dylai gwrthod byrddau pensiynau ar y cyd sydd yn gweinyddu mwy nag un gronfa awdurdod gweinyddol. Mae achosion lle byddai dull ar y cyd, gydag un bwrdd bensiwn yn gwasanaethu nifer o gronfeydd LGPS, yn gallu darparu manteision.

Mae hyn yn debygol mewn achos lle mae gan gronfeydd LGPS berthynas cydweithio cryf yn barod. e.e. yr 8 cronfa yng Nghymru sydd yn ystyried CIV ar hyn o bryd, a gyda hanes cydweithio gyda'i gweithgareddau cyfathrebu ayyb.

Mae byrddau ar y cyd hefyd yn darparu cyfle i fwrdd pensiwn lleol cael mynediad at nifer o wahanol ffyrdd o weithio. Mae'n fanteisiol i fwrdd lleol weld agweddau gwahanol a gellir rhannu ymarfer da dros awdurdodau gweinyddol. Yn wir, gellir arwain at lefelu safonau llywodraethu o fewn y gymuned LGPS, sydd yn nodwedd ddymunol iawn. Gellir hyn hefyd

ei gwneud hi’n haws i Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun weithredu, yn hytrach na delio gyda 89 cronfa LGPS ar wahân.

Rydym yn croesawu addasiad i’r rheoliadau sydd yn caniatáu i’r awdurdodau gweinyddol rhannu byrddau, os oes angen dangos i fodloni’r Ysgrifennydd y Wlad  y manteision llywodraethu o wneud hyn.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnig nifer o gyfarfodydd i gyflogwyr a gweithwyr yn ôl y galw ar hyn o bryd, gan gynnwys cyfarfod blynyddol i gyflogwyr. Nid ydym yn credu bod angen cynnwys hyn fel gofyniad yn y Rheoliadau.

Rydym yn nodi y bydd llawer o’r manylion yn dilyn mewn arweiniad statudol. Gan fod y cyfnod i weithredu yn fyr mae angen rhoi’r rheoliadau mewn lle mor fuan â phosib a bydd cyhoeddiad buan o’r farn ar gynnwys yr arweiniad statudol yn helpu’r awdurdodau gweinyddol i ddatblygu amodau gorchwyl priodol.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **21 HYDREF 2014** |
| **PWRPAS** | **DIWEDDARU’R PWYLLGOR AR Y PROSIECT CYDWEITHIO PENSIYNAU** |
| **TEITL** | **CYNLLUNIAU PENSIWN LYWODRAETH LEOL CYMRU – GWEITHIO GYDA’N GILYDD** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae’r Pwyllgor yn ymwybodol o’r prosiect a ymgymerwyd gan Is-grŵp Pensiynau Gymdeithas Trysoryddion Cymru a'r adroddiad a gynhyrchwyd yn Ebrill 2013 yn dilyn ymgynghoriad gyda chyflogwyr, cynrychiolwyr gweithwyr a phartïon eraill gyda diddordeb sydd yn argymell cyd-fuddsoddi fel y ffordd ymlaen. Danfonwyd ymateb i’r ymgynghoriad gan y Pwyllgor hwn yn dilyn ystyried y materion yng nghyfarfod y pwyllgor hwn ar 22 Mawrth 2013.

## 2. ADRODDIAD TERFYNOL

**2.1** Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- Cynhyrchu Achos Busnes llawn i weithredu dull buddsoddi cyffredin.
- Creu strwythur llywodraethu priodol ac ymatebol i yrru cynlluniau cydweithio'r dyfodol.
- Adeiladu ar y cydweithio presennol i wella, creu cysondeb ac effeithlonrwydd mewn gweinyddiaeth.

## 3. SEFYLLFA BRESENNOL

**3.1** Yn unol â’r adroddiad mae’r Bwrdd Prosiect Cydweithio wedi penderfynu dilyn y mater ymhellach a threfnu achos busnes manwl i adnabod sut yn ymarferol y gellir gweithredu dull buddsoddi cyffredin o’r fath a gwella’r arbedion a chostau ariannol y rhagwelir ynghyd ac unrhyw anawsterau ymarferol i’w goresgyn.

**3.2** Ymgymerwyd y proses caffael i benodi ymgynghorwyr ym mis Tachwedd 2013 a derbyniwyd tri ymateb. Ar y pwynt yma, daeth i’r amlwg bod nifer o ddiwygiadau ar gyfer yr LGPS yn cael eu hystyried gan DCLG. Gan fod cyfuno cronfeydd pensiwn yn cael ei ystyried, penderfynwyd gohirio’r broses caffael tan roedd cyfeiriad y Llywodraeth yn glir.

**3.3** Erbyn hyn mae’r Llywodraeth wedi penderfynu mai buddsoddi ar y cyd yw’r ffordd ymlaen yn hytrach na chyfuno cronfeydd. Mae’r Bwrdd Prosiect Cydweithio felly wedi penderfynu symud ymlaen a phenodi’r ymgynghorydd a dewiswyd. Ariannir

cost y penodiad hwn gan yr wyth gronfa bensiwn. Amcangyfrifir bydd angen i bob cronfa cyfrannu £8,500.

**3.4** Bydd canlyniad yr Achos Busnes yn cael ei adrodd i'r pwyllgor hon pan fydd wedi ei gwblhau. Bydd unrhyw gamau i'w cymryd fel canlyniad i'r adroddiad yn cael ei ystyried gan y pwyllgor hwn.

## 4. ARGYMHELLIAD

**4.1** Gofynnir i'r pwyllgor cymeradwyo cyfraniad i gost yr Achos Busnes hyd at uchafswm o £8,500.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **21 HYDREF 2014** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2013/14** |
| PWRPAS: | **Mae'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor ar ran y Gronfa Bensiwn** |
| ARGYMHELLIAD**:** | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

Cafodd Cod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys ei fabwysiadu gan y Cyngor hwn ar y 1af o Fawrth 2011 ac mae'r Cyngor hwn yn cydymffurfio'n llawn â'i ofynion. Mae'r Cod yn mynnu i mi adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn y disgwyliadau.

Yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth rheolaeth trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyriwyd y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys (DRhST) Cyngor Gwynedd am 2013/14, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cymeradwywyd y DRhST gan y Pwyllgor Pensiynau yn ei gyfarfod ar 22 Mawrth 2013. O ganlyniad, mae'n ofynnol i mi adrodd ar wir ganlyniadau gweithgaredd rheolaeth trysorlys 2013/14 yn erbyn y disgwyliadau.

## 2. Gweithgarwch Buddsoddi

Daeth Arweiniad diwygiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau i rym ar 1 Ebrill 2010, ac roedd yn ailadrodd yr angen i flaenoriaethu diogelwch a hylifedd, yn hytrach nag enillion. Roedd hefyd yn argymell bod strategaethau i gynnwys asesu risg credyd, rhesymau ar gyfer benthyca cyn bod angen a'r defnydd o ymgynghorwyr trysorlys.

| **Balansau'r Gronfa Bensiwn** | Balans ar 31/03/2013 £m | Balans ar 31/03/2014 £m |
|---|---|---|
| Balansau | 7.4 | 10.7 |

Yn unol â chais Pwyllgor Pensiynau 23 Mawrth 2013, cyfunwyd arian y gronfa bensiwn gyda llif arian cyffredinol y Cyngor. Fel y cytunwyd yn y Pwyllgor Pensiynau ar 17 Mawrth 2014 mae'r trefniant yn parhau yn 2014/15. Mae cyfraddau llog yn isel iawn ar hyn o bryd ond nid oes rheswm dros newid y penderfyniad hwn.

Mae’r tabl isod yn dangos crynodeb o le fuddsoddwyd yr arian cyfunedig yma yn ystod 2013/14.

| **Buddsoddiadau** | Balans ar 01/04/2013 £’000 | Buddsoddiadau a wnaed £’000 | Aeddfediadau / Buddsoddiadau a werthwyd £’000 | Balans ar 31/03/2014 £’000 | Cyfradd cyfartaledd % |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau Tymor Byr | 35,629 | 208,200 | (216,746) | 27,083 | 0.63 |
| **CYFANSWM BUDDSODDIADAU** | **35,629** | **208,200** | **(216,746)** | **27,083** | **0.63** |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Buddsoddiadau £m | | | | (8,546) | |

Roedd diogelwch y buddsoddiad yn parhau i fod yn brif amcan buddsoddi i’r Awdurdod. Cafodd hyn ei gynnal drwy ddilyn polisi gwrthbarti’r Awdurdod sydd wedi’i nodi yn ei Ddatganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2013/14 oedd yn diffinio sefydliadau sydd ag “ansawdd credyd uchel” fel y rheini sydd â statws credyd o A- neu uwch, sy’n preswylio yn y DU neu mewn gwlad dramor sydd â statws sofren o AA+ neu uwch.

Roedd buddsoddiadau gyda banciau a chymdeithasau adeiladu yn cynnwys cyfrifon ar alw, adneuon cyfradd sefydlog cyfnod penodol a thystysgrifau adneuon. Cyfnod hiraf y buddsoddiadau hyn oedd 12 mis yn unol â’r rhagolwg credyd cyffredinol yn ystod y flwyddyn yn ogystal ag amodau’r farchnad.

**Datblygiadau credyd a rheoli risg credyd**

Cafodd ansawdd credyd gwrthbartïon ei asesu a'i fonitro gan yr Awdurdod drwy gyfeirio at statws credyd; amnewid diffyg credyd (*credit default swaps*); GDP y wlad y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddi; dyled net y wlad fel canran o'i GDP a phris y cyfranddaliadau. Isafswm y statws credyd tymor hir ar gyfer gwrthbartïon a bennwyd gan yr Awdurdod ar gyfer strategaeth drysorlys 2013/14 oedd A- ar draws asiantaethau statws credyd Fitch, S&P a Moody’s.

Datryswyd yr argyfwng dyledion yn Cyprus wrth i’r llywodraeth orfodi ‘toriad’ ar fuddsoddiadau anwarantedig ac adneuon banc dros €100,000. Mewn cyferbyniad llwyr â’r ‘*bail-outs’* yn ystod argyfwng ariannol 2008/2009, esgorodd y mecanwaith datrys hwn ar ysgytwad drwy Ewrop ond galluogodd rheolyddion bancio i symud ymlaen â thrawsnewid fyddai’n gorfodi colledion yn y dyfodol i fuddsoddwyr drwy ‘*bail-in*’ cyn y byddai gofyn i drethdalwyr gefnogi banciau sy’n methu.

Cafodd Deddf Gwasanaethau Ariannol (Diwygio Bancio) 2013 Gydsyniad Brenhinol ym mis Rhagfyr a oedd yn deddfu i wahanu banciau manwerthu a buddsoddi ac i gyflwyno ‘*bail-in’* mandadol yn y DU i ddirwyn sefydliadau ariannol sy’n methu i ben neu eu hailstrwythuro. Cytunodd gweinidogion cyllid yr UE ar gamau pellach tuag at undeb bancio, a’r Mecanwaith Datrys Unigol (SRM) ar gyfer datrys problemau gyda banciau mawr trwblus fyddai’n symud y baich o’u hailstrwythuro/hachub yn y dyfodol i gyfranddeiliaid, dalwyr bondiau a buddsoddwyr ansicredig y sefydliad.

Cyhoeddwyd cynigion hefyd i'r UE ddiwygio sut y caiff Cronfeydd Marchnad Arian eu rheoleiddio a fydd efallai yn peri i'r cronfeydd hyn gael eu symud i sail VNAV (*variable net asset value*) a cholli eu statws credyd 'AAA' yn y dyfodol.

Y newidiadau materol i deilyngdod credyd banciau'r DU oedd (a) y cynnydd cryf a wnaed gan Grŵp Bancio Lloyds i gryfhau ei fantolen, proffidioldeb a sefyllfaoedd ariannu a'r llywodraeth yn lleihau ei nifer o gyfranddaliadau yn y Grŵp i lai na 25%, (b) y cyhoeddiad gan Royal Bank of Scotland eu am greu banc gwael mewnol i gadw ei asedau â'r mwyaf o risg (roedd hyn gyfystyr ag estyniad materol o'r broses hir sefydledig o ailstrwythuro RBS, a esgorodd ar oedi pellach cyn i'r banc allu dychwelyd at broffidioldeb) a (c) colledion sylweddol yn Co-op Bank a orfododd y banc i ymgymryd ag ymarfer rheoli atebolrwydd i gynyddu mwy o gyfalaf ac ailstrwythuro dyledion oedd yn golygu tynnu dalwyr bondiau iau i mewn fel rhan o'r ailstrwythuro.

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Moody fod statws hirdymor A3 Royal Bank of Scotland a NatWest Bank a statws cryfder ariannol annibynnol RBS o D+ i gael eu hadolygu er mwyn eu hisraddio ymysg pryderon ynglŷn ag effaith chwalfa bosib y banciau ar gredydwyr. Fel ymarferiad rhagofalus, gostyngodd yr Awdurdod ei hyd ar gyfer buddsoddiadau newydd gyda'r banc(iau) i dros nos. Ym mis Mawrth, israddiodd Moody's statws hirdymor y ddau fanc i Baa1. Oherwydd bod y statws hwn yn is na maen prawf isafswm credyd yr Awdurdod o A-, tynnwyd y banciau oddi ar y rhestr o wrthbartïon ar gyfer buddsoddiadau pellach.

Cafodd statysau hirdymor Co-op eu hisraddio gan Moody's a Fitch i Caa1 a B yn ôl eu trefn, gyda'r ddau yn statws gradd is-fuddsoddi. Mae cynlluniau cynyddu cyfalaf Co-op Bank er mwyn gwneud iawn am ddiffyg cyfalaf yn cynnwys cyfraniad gan y Co-op Group sydd wedi ymrwymo i roi £313m i mewn yn 2014 – ac mae £50m ohono wedi cael ei dalu i mewn hyd yma. Fodd bynnag, er mwyn ymdrin â cholledion disgwyliedig yn y dyfodol a bodloni targedau cyfalaf y '*Prudential Regulation Authority*', mae gwaith yn mynd rhagddo i chwilio am £400m arall gan gyfranddalwyr – a chyfran y Co-operative Group ohono yw oddeutu £120m. O ystyried sefyllfa ariannol Co-op Group ei hun, nid yw talu'r symiau hyn yn sicr o bell ffordd, sy'n gadael y banc mewn sefyllfa cyfalaf ansicr.

Mae ansawdd credyd gwrthbartion y Cyngor wedi wanhau fel y dangosir gan crynodeb y Dadansoddiad Sgor Credyd isod. Mae'r tabl yn Atodiad 3 yn esbonio'r sgor credyd.

**Dadansoddiad Sgor Credyd 2013/14**

| Dyddiad | Cyfartaledd Gwerth – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Gwerth – Statws Credyd | Cyfartaledd Amser – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Amser – Statws Credyd | Cyfartaledd y cyfnod (diwrnodau) |
|---|---|---|---|---|---|
| 31/03/2013 | 5.17 | A+ | 4.97 | A+ | 81 |
| 30/06/2013 | 5.18 | A+ | 5.30 | A+ | 42 |
| 30/09/2013 | 5.44 | A+ | 4.66 | A+ | 68 |
| 31/12/2013 | 5.72 | A | 5.55 | A | 110 |
| 31/03/2014 | 5.69 | A | 5.80 | A | 102 |

**Hylifedd**

Yn unol â Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru, bu i'r Cyngor gynnal lefel ddigonol o hylifedd, £63.8m yn gyfartaledd, drwy ddefnyddio Cronfeydd Arian Marchnad, buddsoddiadau dros nos a chyfrifon ar alw. Mae'r Awdurdod yn defnyddio rhagolygon llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus.

**Cynnyrch**

Cynhaliwyd Cyfradd Banc y DU ar 0.5% drwy gydol y flwyddyn. Arhosodd cyfraddau arian y farchnad tymor byr hefyd ar lefelau isel iawn a oedd yn dal i gael effaith sylweddol ar incwm buddsoddi. Cyfartaledd cyfradd LIBID 3 mis yn ystod 2013/14 oedd 0.45%, cyfartaledd cyfradd LIBID 6 mis oedd 0.53% a chyfartaledd cyfradd LIBID 1 flwyddyn oedd 0.78%. Mae cyfraddau enillion isel ar fuddsoddiadau arian marchnad cyfnod byr yr Awdurdod yn adlewyrchu amodau presennol yn y farchnad ac amcan yr Awdurdod i optimeiddio enillion sy'n gymesur ag egwyddorion diogelwch a hylifedd.

Caiff perfformiad ac addasrwydd parhaol y cronfeydd i fodloni amcanion buddsoddi'r Awdurdod eu monitro'n rheolaidd.

Amcangyfrifwyd mai incwm buddsoddiadau y mae'r Awdurdod wedi'i gyllidebu ar gyfer y flwyddyn fyddai £0.56m. Roedd y balansau arian cyfartalog sy'n cynrychioli cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod, ei falansau gweithio ac ati yn £63.8m yn ystod y cyfnod a'r llog a enillwyd oedd £0.40m.

**Diweddariad ynglŷn â'n Buddsoddiadau yn Banc Heritable.**

Bellach, mae'r awdurdod wedi adennill 94% o'i fuddsoddiadau ym manc Heritable. Mae'n debygol y bydd dosraniadau pellach yn cael eu derbyn er nad yw'r gweinyddwyr wedi gwneud unrhyw amcangyfrif o'r adenillion terfynol eto.

Cyhoeddodd CIPFA arweiniad pellach ar y dull o gyfrif y trafodion hyn ym mis Medi 2013 pan gyhoeddwyd LAAP 82 (diweddariad 8). Nid oes gan CIPFA unrhyw gynlluniau i gyhoeddi unrhyw ddiweddariadau ychwanegol

## 4. Argymhelliad

**Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau derbyn yr adroddiad er gwybodaeth am sut fuddsoddwyd arian parod y Gronfa, ar y cyd ag arian y Cyngor yn 2013/14.**

**ATODIAD**

**Dadansoddiad o'r Sgôr Credyd**

Sgorio:

| Statws Credyd Tymor Hir | Sgôr |
|---|---|
| AAA | 1 |
| AA+ | 2 |
| AA | 3 |
| AA- | 4 |
| A+ | 5 |
| A | 6 |
| A- | 7 |
| BBB+ | 8 |
| BBB | 9 |
| BBB- | 10 |
| Heb ei sgorio | 11 |
| BB | 12 |
| CCC | 13 |
| C | 14 |
| D | 15 |

Mae'r gwerth cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint yr ernes. Mae'r amser cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd yr ernes.

Roedd y Cyngor yn anelu at sgôr o 7 neu is, er mwyn adlewyrchu'r flaenoriaeth or-redol am ddiogelwch yr arian a buddsoddir a'r trothwy isaf cyfradd credyd A- i gwrthbartion buddsoddi.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **21 HYDREF 2014** |
| **PWRPAS** | **DEWIS CYNRYCHIOLYDD I FYNYCHU'R GYNHADLEDD** |
| **TEITL** | **PRESENOLDEB YN GYNHADLEDD 'LOCAL AUTHORITY PENSION FUND FORUM (LAPFF) AR 3 - 5 RHAGFYR 2014** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Cynhelir cynhadledd flynyddol 'The Local Authority Pension Fund Forum (LAPFF)' yn Bournemouth ar 3ydd - 5ed Rhagfyr 2014. Noder bod cyfarfod y Cyngor Llawn ar 4 Rhagfyr 2014.

## 2. PRESENOLDEB

**2.1** Yn 2013 roedd yr Is-gadeirydd a'r Rheolwr Buddsoddi yn mynychu'r gynhadledd. Mae'r rhaglen ar gyfer cynhadledd 2014 yn Atodiad A.

## 3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor dewis aelod i fynychu'r gynhadledd.

Local Authority Pension Fund Forum

# 19TH Annual LAPFF Conference

3, 4, 5 December 2014
The Highcliff Marriott Hotel, Bournemouth

# PRODUCTIVE



# INVESTMENT:

## Public funds and public purpose

**OUR ANNUAL** Conference theme this year reflects the 'great debate': what are the LGPS assets doing! Everyone, from the Treasury to the think tanks, across stakeholders, companies and local communities, wants a piece of the action. Our title reflects the challenges: 'Productive Investment: Public Funds and Public Purpose'. With over £150billion in assets across the funds, there has been endless speculation about how this capital should be invested.

Of course the first call on these assets is the continuing need to pay pensions, now and at any time in the future. Much of the debate has focussed on the role for local authority pension fund investment in city and urban development to reinvigorate local and regional economies through impact investing, amongst other strategies. To follow that route at our conference we have **Lord Michael Heseltine**, a consistent, experienced and vocal policy advocate for urban themes. He will contribute by providing a UK perspective on the challenges communities, city governments, central governments and investors all face in coming to the aid of our great cities.

The approach of Northern Cities in creating new centres of economic and social growth has already begun. Our second keynote speaker is **Jim O'Neill**, formerly head of Economics at Goldman Sachs and avid Manchester United fan. Jim now heads up the Cities Growth Commission and will set out their case for regional growth strategies based on turbo boosting northern city development.

Other themes to be explored at the Conference are new asset owner strategies on executive pay; diversity recruitment; shareholder nominated directors; preparing for the new LGPS and the fate of RBS, with journalist and broadcaster **Ian Fraser**, author of *'Shredded: Inside RBS the bank, the Bank that Broke Britain'*.

The LAPFF conference is the largest gathering of institutional investors in the UK focussing on responsible investment. LAPFF brings together 60 public sector pension funds with combined assets over £150billion. Our conference is regularly attended by 200 delegates and has become noted for its range and focus for pension fund trustees. It is also regarded as a showcase for responsible investment.

# 19TH Annual LAPFF Conference, 2014

## 3,4,5 December, The Highcliff Marriott Hotel, Bournemouth

## Programme Productive investment: public funds and public purpose

### WEDNESDAY 3

3.30pm
**LAPFF member roundtable**

7.30pm
Drinks reception

8.30pm
Dinner sponsored by Sarasin & Partners

Entertainment sponsored by Darwin Property Investment Management

Refreshments throughout the conference sponsored by Jupiter

Conference badges sponsored by Royal London Asset Management

Conference bag sponsored by AGF

Conference delegate folder sponsored by Martin Currie

Conference notebook sponsored by Capital Dynamics

Conference pen sponsored by LGT Capital Partners

Conference gift sponsored by Robbins Geller Rudman & Dowd

### THURSDAY 4

9.30am **Welcome to the conference**
Cllr Kieran Quinn, Chair of LAPFF

9.45am **What kind of infrastructure investment do we need?**
Speaker to be announced

10.30am Q&A

10.45am Refreshments

11.00am **LAPFF engagement**
Cllr Kieran Quinn, Chair of LAPFF and GMPF
Cllr Richard Greening, LAPFF Executive and Chair of LB Islington PF
Cllr Cameron Rose, Vice Chair of LAPFF, Lothian Pension Fund

11.40am **Mergers and acquisitions**
Tim Bush, PIRC Ltd
+ speakers to be announced

12.15pm **Rt Hon the Lord Heseltine CH**
Former Deputy Prime Minister
**No stone unturned, urban regeneration**

1.00pm Lunch

2.00pm **'Shredded inside RBS'**
Ian Fraser, journalist and author

2.45pm **International activism**
James Hoffa, General President, International Brotherhood of Teamsters
Louis Malizia, Asst Director, Capital Strategies Dept, International Brotherhood of Teamsters
Yasuaki Kinoshita, Chief Portfolio Manager, Nissay Asset Management

3.45pm Refreshments

4.10pm **LGPS issues**
Bob Holloway, DCLG
Cllr Kieran Quinn, Chair of LAPFF and GMPF
Cllr Denise Le Gal, Chair Surrey CC Pension Fund
Terry Crossley, Barnett Waddingham

4.50pm Q&A

5.15pm Close

7.30pm Drinks reception sponsored by Entrust

8.30pm Dinner sponsored by Robbins Geller Rudman & Dowd

### FRIDAY 5

9.30am Welcome back from the chair of LAPFF, Cllr Kieran Quinn

9.40am Conference chair
David Pitt-Watson, London School of Economics

9.45am **Building cities for the future**
Jim O'Neill, Chairman, City Growth Commission

10.30am **Executive pay: Alignment or intrinsic value**
Cllr Kieran Quinn, Chair of LAPFF and GMPF
Natasha Landell-Mills, Sarasin & Partners
James Upton, Senior Manager, Governance, BHP Billiton (invited)

11.15am Refreshments

11.30am **Board diversity and director competencies**
Laura Carstensen, Non-Executive Director, Equality & Human Rights Commission
Fiona Reynolds, CEO, Principles for Responsible Investment

12.15pm **How better business practice can drive both market and social returns**
**Cherie Blair, CBE, QC,** Chair, Omnia Strategy LLP

1.00pm Conference close

Buffet lunch

Local Authority Pension Fund Forum

If you would like to book a place please complete the following registration form

Local Authority Pension Fund Forum

# 19TH Annual LAPFF Conference, 2014

## Productive investment: public funds and public purpose

**3, 4, 5 December 2014** at the Bournemouth Highcliff Marriott Hotel, St Michael's Rd, Westcliff, Bournemouth BH2 5DU

- LAPFF members receive two complimentary delegate places
- Local Authority delegates, non-LAPFF members and 'not-for-profit' organisations: £500 +VAT (£100) = £600.00
- Delegates not in the above categories, delegate rate: £1,500 +VAT (£300) = £1,800

**Please register the following** for the Local Authority Pension Fund Forum 19th Annual Conference on 3, 4, 5 December 2014 at the Bournemouth Highcliff Marriott Hotel:

NAME

POSITION

ORGANISATION

ADDRESS

POSTCODE

TELEPHONE

FAX

EMAIL

- Please specify any dietary requirements

☐ LAPFF member booking

☐ Non-LAPFF member local authority rate
- ☐ please invoice my organisation
- ☐ cheque made payable to 'PIRC Ltd' enclosed
- ☐ please charge my credit card

☐ Full delegate rate
- ☐ Please invoice my organisation
- ☐ cheque made payable to 'PIRC Ltd' enclosed
- ☐ Please charge my credit card

☐ I cannot attend but I would like to order the conference papers at £150

Type of card: Visa / Switch / Mastercard / JCB

CARD NO

EXPIRY DATE

NAME OF CARD HOLDER

SIGNED

DATE

I would like to attend the following **social events** at the LAPFF 19th Annual Conference on 3 & 4 December 2014.

☐ Drinks reception on Wednesday 3 December, at 7.30pm in the Dorchester Suite at The Bournemouth Highcliff Marriott Hotel.

☐ Conference dinner on Wednesday 3 December, at 8.30pm in the Dorchester Suite at The Bournemouth Highcliff Marriott Hotel.

☐ Drinks reception on Thursday 4 December at 7.30pm in the Dorchester Suite at The Bournemouth Highcliff Marriott Hotel.

☐ Conference dinner on Thursday 4 December at 8.30pm in the Dorchester Suite at The Bournemouth Highcliff Marriott Hotel.

If you would like to make a reservation at the Bournemouth Highcliff Marriott Hotel, rooms have been reserved on 3 & 4 December for the LAPFF conference at £117 per night including breakfast. Delegates are responsible for their own accommodation.

Please contact the Bournemouth Highcliff Marriott Hotel directly on 0870 400 7211 and quote the LAPFF Conference when reserving a room. All rooms will be allocated on a first come, first served basis. Alternatively click on this link which will direct you to the Bournemouth Highcliff Marriott Hotel's home page with the negotiated rate code already entered in the appropriate field and you can quickly make your room reservation.

Please return the completed form to:

Janice Hayward
LAPFF Research and Engagement Partner
PIRC Limited
6th floor,
9 Prescot Street
London E1 8AZ
Tel: 020 7392 7894 · Fax: 020 7680 4081
Email: JaniceH@pirc.co.uk

Please note that payment must be received by PIRC before the conference date in order to guarantee your registration. Cancellations up to 21 days before the event will be accepted subject to 30% administration charge. Cancellations received less than 21 days prior to the event receive no refund of fees. Substitute delegates are welcome with prior notification.

LAPFF reserves the right to alter or amend the programme due to circumstances beyond its control.

THE LAPFF CONFERENCE 2014 GRATEFULLY ACKNOWLEDGES THE SPONSORSHIP OF THE FOLLOWING ORGANISATIONS:

Robbins Geller Rudman & Dowd LLP · Sarasin & Partners · AGF · Royal London · Darwin Property Investment Management · LGT Capital Partners · Entrust · Jupiter · Martin Currie · Capital Dynamics

Local Authority Pension Fund Forum

## 19TH Annual LAPFF Conference, 2014

**Productive investment: public funds and public purpose**

3, 4, 5 December 2014

## The Highcliff Marriott Hotel, Bournemouth




The Highcliff Marriott Hotel is in **St Michael's Road, Bournemouth**.

**BY ROAD, FROM THE NORTH AND EAST:**
from the M3 take the M27 to the end of the motorway following signs for Bournemouth (A31). Turn left onto the A338 (Wessex Way) at Ashley Heath roundabout, following signs for Bournemouth International Centre (BIC) and Westcliff.

At Westcliff Road take the second turning on your right (past pedestrian crossing) into St Michael's Road. The hotel is at the end of the road on the right.

**FROM THE WEST:**
from the A35 follow the signs for Bournemouth Town Centre (BIC / Westcliff).
When you reach Westcliff Road follow directions as above.

THE LAPFF CONFERENCE 2014 GRATEFULLY ACKNOWLEDGES THE SPONSORSHIP OF THE FOLLOWING ORGANISATIONS:

Robbins Geller Rudman & Dowd LLP · Sarasin & Partners · AGF · Royal London · Darwin Property Investment Management · LGT Capital Partners · Entrust · Jupiter · Martin Currie · Capital Dynamics

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **21 Hydref 2014** |
| TEITL: | **CYNHADLEDD COPA BUDDSODDI'R LGC<br>9-10 MEDI 2014 - "Buddsoddi am Dwf"** |
| PWRPAS: | **Hysbysu aelodau'r Pwyllgor o'r budd a gafwyd o fynychu'r gynhadledd** |
| AWDUR: | **Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid** |

---

## CYFLWYNIAD

**1.** Unwaith eto eleni, cynhaliwyd cynhadledd 'Copa Buddsoddi'r LGC' yn y Celtic Manor, Casnewydd, a'i mynychwyd gan y Cynghorydd Margaret Lyon, y Cynghorydd John Pughe Roberts, a Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid. Mae'r adroddiad cryno canlynol yn cyfeirio at ddetholiad o'r cyflwyniadau, a chyfleon i ddysgu o rwydweithio anffurfiol.

## RHAGOLWG YR ECONOMI A'R FARCHNAD

**2.** Ddaru **Josh McCallum** a **Kevin Barker**, y ddau o UBS, gynghori "mai'r unig sicrwydd yw fod mwy o anweddolrwydd i ddod". Roeddynt yn sôn am bryderon y gallai chwyddiant mynd allan o reolaeth (gyda dyfarniadau cyflog o 3% yn yr Almaen), ac os bydd chwyddiant yn datblygu'n hunan-gyflawnol, yna byddai'n boenus i'w gael o dan reolaeth.

**3.** Ymhellach, eglurwyd bod dadchwyddiant, fel yn Japan, yn arwain at ddyled enfawr, yn gallu bod yn waeth na chwyddiant. Ychwanegwyd [ar "QE"] os mai argraffu arian oedd y ffordd i hybu twf, mai Zimbabwe fyddai cenedl cyfoethocaf y Byd!

**4.** Wrth gymhwyso hyn at strategaeth fuddsoddi, eu barn nhw oedd os bydd chwyddiant yn digwydd, yna byddai angen i gronfeydd pensiwn osgoi bod mewn bondiau, yn sicr bondiau Almaeneg. I gloi, ddaru nhw ail-briodoli ystyr yr acronym poblogaidd "TOWIE" i olygu "the only way is equities".

## CYNHYRCHU DYCHWELIADAU DENIADOL GYDA RISG ISEL

**5.** Cyflwynodd **Phil Apel**, Pennaeth Incwm Sefydlog, Henderson Global Investors, ac **Alex Younger**, Rheolwr Buddsoddi a Chyfrifeg, Cronfa Bensiwn Norfolk, sesiwn yn trafod arallgyfeirio i ennill dychweliadau deniadol gyda risg isel.

Yn ogystal â chymeradwyo mandad dychweliadau absoliwt ar gyfer portffolio incwm sefydlog, trafodwyd y risg a'r wobr wrth arallgyfeirio i 'Credit Default Swops' (deilliadau). Nodwyd fod angen gofal wrth i arbenigwr Henderson egluro sut gall 'CDSs' ymddwyn yn wahanol i'r gwarantau incwm sefydlog gwaelodol maent yn seiliedig ar, a buasai mentro i ymylon y dosbarth hwn o asedau yn crwydro i diriogaeth "hedge funds"!

**6.** Er mwyn gwarchod rhag anweddolrwydd, awgrymodd arbenigwr Hendersons y gallai cronfeydd ystyried derbyn lefel hylifedd is er mwyn cynyddu elw. Fodd bynnag, gan fydd anweddolrwydd yn codi, bydd cronfeydd yn ceisio dad-risgio drwy hylifedd. Daeth y siaradwyr i'r casgliad bod hyd amser y portffolios yn allweddol – a’r "tric" ydi gwybod pryd i fanteisio ar bremiwm a geir gyda llai o hylifedd.

**7.** Roedd cyfleoedd rhwydweithio anffurfiol cynadleddwyr gyda Hendersons yn cynnwys arddangosfa o gynnyrch Cymreig, gydag arbenigwyr yn trafod bwyd a diod o Gymru fel seidr Pant Du, ac ati. Yn ogystal, roedd y Celtic Manor hefyd yn gwasanaethu bwyd o ardal Gronfa Gwynedd, yn cynnwys teisen gri Blas y Castell o Bopty Cae Groes, Llanllechid.

## DRYSAU NEWYDD YN AGOR MEWN INCWM DIOGEL WRTH I’R BANCIAU ENCIL

**8.** Trafododd **John Dewey**, BlackRock, cyfleoedd buddsoddi pan fydd gan Bondiau'r DU cynnyrch negyddol. Nododd bod ecwiti wedi gwneud yn dda ers 2008, ond erbyn hyn mae gennym ddisgwyliadau isel o berfformiad yn y dyfodol. Ymhelaethodd fod Ecwiti Preifat yn gallu darparu dychweliadau da, ond ei fod yn llai dibynadwy / diogel.

**9.** Nododd fod Asedau Incwm Diogel yn rhoddi cynnyrch ychwanegol (dros bondiau) yn adlewyrchu risg credyd a risg o ddiffyg hylifedd, ond mae awdurdodau lleol angen llif arian diogel (ddim cael ein cloi i mewn i fenthycwyr sydd ddim yn ad-dalu, “haircuts”, ac ati). Daeth arbenigwr BlackRock i'r casgliad dylai'r cronfeydd, yn gyffredinol, ddewis a dethol cyfleon o ystod eang o fuddsoddiadau, nid o un sector a allai orboethi.

## BUDDSODDI EFFAITH CYMDEITHASOL

**10.** Esboniodd **Simon Bond** o Threadneedle Investments nad yw “Bondiau Effaith Gymdeithasol” yn “bond” mewn gwirionedd, tra’n dadlau “does dim rhaid aberthu enillion ariannol er mwyn sicrhau enillion cymdeithasol”. Ei ddamcaniaeth oedd fod y “bydysawd cymdeithasol” yn bodoli lle mae dychweliadau, hylifedd a “dwyster cymdeithasol” yn gorgyffwrdd. Eglurodd sut mae Prifysgol Manceinion yn asesu ffactorau a chanlyniadau ESG i mewn i sbectrwm o arddwysedd cymdeithasol isel / canolig / uchel. Fodd bynnag, ’roedd yr effaith cymdeithasol o'r bondiau sydd ar gael yn gyffredinol, yn hytrach na ffafrio unrhyw angen neu ardal penodol.

**11.** Nes ymlaen, ddaru cynrychiolwyr Gwynedd rwydweithio’n anffurfiol gyda Alex Younger a Nicola Mark o Gronfa Bensiwn arloesol Norfolk a rheolwyr cronfeydd o gwmnïau amrywiol, gan ystyried cyfleoedd buddsoddi "lleol" ar gyfer arallgyfeirio. Daethom i'r casgliad nad oedd unrhyw gyfleoedd na cherbydau priodol (cronfeydd) ar gyfer buddsoddi "lleol" mewn rhanbarthau mwy gwledig, ac nad oedd sicrwydd, hylifedd na dychweliadau wedi’u profi mewn cronfeydd ‘metropolitan’ eto.

## LLYWODRAETHU ANSAWDD UWCH YN EICH MAINT

**12.** Cyflwynodd **Ronnie Bowie** a **John Wright** o Hymans Robertson y sesiwn derfynol, 'Ryder Cup - Fairway to Heaven', gan roddi rhesymeg golffio i fuddsoddi mewn ffordd ddifyr. Cyferbynnodd Ronnie gwymp Tiger Woods gydag adferiad cronfeydd CPLlL yn ystod 2010 i 2013, cyn i John gyflwyno dadansoddiad 'tebyg wrth debyg' Hymans o lefelau ariannu, yn dangos sut mae rhai cronfeydd yn fwy dibynnol nag eraill ar enillion buddsoddi tybiannol uwch.

**13.** Yn 2013 (i adfer diffygion llai), mae gan gronfeydd yn awr dychweliad gofynnol is. Ar gyfartaledd, bu gostyngiad o 1% oherwydd perfformiad buddsoddi da 2010-2013, ond hefyd oherwydd cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn cyflogwyr.

**14.** Cyflwynodd Ronnie data Hymans ar gyfer CLG yn dangos bod rheolaeth weithredol yn gyffredinol wedi amharu ar berfformiad gronfeydd dros 10 mlynedd. Fodd bynnag, nododd ar y llaw arall dros y tair blynedd 2010-2013 bod mwy o gronfeydd llywodraeth leol wedi perfformio'n well na'u meincnod, a bod rheolaeth weithredol wedi cyfrannu'n bositif yn ystod y cyfnod hwnnw. Nid oedd Hymans yn dadlau am reolaeth buddsoddi 100% goddefol, nid oeddent yn teimlo mai dyna'r ateb, ond gallai hynny gael ei orfodi gan CLG. Nid oedd canlyniad adolygiad Hymans ar gyfer CLG yn annog perfformiad hollol wastad, ond i wella perfformwyr gwaelaf, ac osgoi tanberfformiad.

**15.** Ymhellach, adroddwyd yn adolygiad Hymans bod cronfeydd bychan wedi cyflawni llai na chronfeydd mawr lle roedd y 2 yn defnyddio rheolaeth weithredol, meincnodau "smart", a buddsoddiadau amgen. O ran cronfeydd canolig i mawr, cadarnhaodd Ronnie fod dim cydberthynas rhwng maint a pherfformiad.

## CASGLIADAU

**16.** Roedd y lleoliad arbennig yma, y Celtic Manor, yn rhoi proffil uchel i'r gynhadledd ac i Gymru unwaith eto. Roedd yn darparu amgylchedd delfrydol ar gyfer cyfarfod, dysgu a gwrando ar ddadleuon gwerthfawr ynglŷn â materion buddsoddi blaengar, ac roedd y cynrychiolwyr ddaru fynychu eleni yn teimlo y byddai'n fuddiol i Gronfa Gwynedd gael ei gynrychioli eto pe byddai'r gynhadledd yn dychwelyd i'r un lleoliad yn 2015.

**17.** Ymhellach, mae ffurf y digwyddiad yn parhau i ddarparu cyfleoedd defnyddiol i drafodaethau 1:1 agored gyda rheolwyr buddsoddi rhwng y sesiynau, a chyfleoedd i rwydweithio gyda chynrychiolwyr cronfeydd eraill, gan fod holl gronfeydd Cymru yn cael eu cynrychioli, a gwnaethpwyd cysylltiadau hefyd gyda chymheiriaid o Loegr a'r Alban.